



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau i Awdurdodau Lleol Cymru ar Hysbysiadau Cosb Benodedig sy'n gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Pryd y cewch gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig	3
Pryd na chewch neu na ddylech gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig	4
▶ Defnydd cymesur	4
▶ Crefftwyfwr	4
▶ Gwastraff cartref a gaiff ei glirio gan landlordiaid	4
▶ Dewis erlyn	4
Sut i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig	5
▶ Cyfle i ddangos dyletswydd gofal	5
▶ Cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig	6
▶ Pan fo mwy nag un unigolyn yn y cartref yn cynhyrchu gwastraff	6
▶ Dull gweithredu trawsffiniol	6
Methiant i dalu cosbau penodedig	8
▶ Proses adolygu anffurfiol	8
Codi Ymwybyddiaeth	9
Adrodd	9

Cyflwyniad

Mae'r ddyletswydd gofal o ran gwastraff yn golygu ei bod yn ofynnol i feddianwyr eiddo domestig gymryd pob cam rhesymol sydd ar gael iddynt o dan yr amgylchiadau i sicrhau eu bod yn trosglwyddo gwastraff cartref a gynhyrchwyd ar eu heiddo i unigolyn awdurdodedig yn unig. Nod y gofyniad hwn yw lleihau'r posibilrwydd y bydd y gwastraff hwn yn syrthio i ddwylo'r rhai hynny a allai ei waredu'n anghyfreithlon. Mae rhagor o fanylion ar y ddyletswydd gofal hon wedi'u nodi yn adran 5 Cod Ymarfer y Ddyletswydd Gofal o ran Gwastraff¹.

Mae'r hysbysiad cosb benodedig ar gyfer torri'r ddyletswydd gofal o ran gwastraff cartref yn cynnig opsiwn gorfodi arall i'r awdurdodau i erlyn troseddwydr drwy'r llysoedd. Mae'n caniatáu i unigolyn ryddhau atebolrwydd am y drosedd ddyletswydd gofal trwy dalu cosb benodedig. Gall y rhain fod yn ymateb gorfodi mwy cymesur i droseddau penodol. Gallant hefyd fod yn rhwystr effeithiol a hyd yn oed annog newid ymddygiadol.

Dylech ddilyn y canllawiau hyn wrth gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer achosion o dorri'r ddyletswydd gofal hon o ran gwastraff. Dylid hefyd ystyried canllawiau ehangach Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol².

Pryd y cewch gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig

Cewch gyflwyno hysbysiad cosb benodedig pan fo'n ymddangos ichi fod meddiannydd eiddo domestig yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd gofal sydd arno o dan **adran 34(2A) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990**. Dyma rai enghreifftiau o hynny:

► Defnydd cymesur

Pan fo modd olrhain gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon i feddiannydd eiddo domestig y canfyddir nad yw wedi cymryd y camau a fyddai'n rhesymol o dan yr amgylchiadau i sicrhau ei fod wedi trosglwyddo'r gwastraff i unigolyn awdurdodedig.

► Cludwr heb awdurdod

Pan ganfyddir bod cludwr heb ei awdurdodi yn cario gwastraff a drosglwyddwyd iddo'n uniongyrchol gan feddiannydd eiddo domestig y canfyddir nad yw wedi cymryd y camau a fyddai'n rhesymol o dan yr amgylchiadau i sicrhau ei fod wedi trosglwyddo'r gwastraff i unigolyn awdurdodedig.

► Mae meddiannydd eiddo domestig i'w weld

Pan ganfyddir bod meddiannydd eiddo domestig yn trosglwyddo ei wastraff i safle heb drwydded nac esemptiad, a bod y meddiannydd wedi methu â chymryd y camau a fyddai'n rhesymol o dan yr amgylchiadau i sicrhau bod y sawl sy'n rhedeg y safle o dan sylw yn unigolyn awdurdodedig.

Gall unigolyn awdurdodedig dipio gwastraff yn anghyfreithlon, felly nid yw olrhain gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon i aelwyd benodol o reidrwydd yn dangos bod rhywun wedi torri'r ddyletswydd gofal. Dylai unigolyn gael cyfle i ddangos ei fod wedi cymryd y camau a oedd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau i benderfynu bod gan yr unigolyn a aeth â'i wastraff yr awdurdod i wneud hynny.

Pryd na chewch neu na ddylech gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig

Nid yw'r hysbysiad cosb benodedig hwn yn gymwys pan fydd deiliad tŷ yn bwriadu i'r gwastraff gael ei gasglu gan yr awdurdod lleol, er enghraifft, pan gaiff ei roi allan yn gywir fel gwastraff cartref neu mewn biniau ailgylchu. Ystyrir yr awdurdod lleol yn unigolyn awdurdodedig, felly wrth roi gwastraff allan i'w gasglu gan awdurdod lleol, mae'r deiliad tŷ wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y sawl y mae'n ei drosglwyddo iddo yn awdurdodedig. Dylid ystyried camau gorfodi eraill os oes angen ymdrin â phroblemau eraill o ran gwastraff cartref, er enghraifft, os yw deiliad tŷ wedi cyflawni trosedd arall.

► Defnydd cymesur

Mae Llywodraeth Cymru eisiau annog dull gorfodi cytbwys. Dylech ond gyflwyno hysbysiad cosb benodedig pan fyddwch yn fodlon fod y dystiolaeth a gasglwyd yn nodi bod trosedd wedi'i chyflawni a phan fydd er budd y cyhoedd i wneud hynny.

Mae trefn orfodi effeithiol ar gyfer troseddau amgylcheddol yn gymesur, yn gyson, wedi'i thargedu, yn dryloyw ac yn atebol. O dan egwyddorion cyffredinol y gyfraith gyhoeddus, mae gennych ddyletswydd i ymddwyn mewn modd teg a chymesur, a chawn ein hannog i ddefnyddio'n disgrisiwn yn synhwyrol ac yn rhesymol gan ystyried budd y cyhoedd. Ni ddylai gorfodi gael ei ddefnyddio fel modd i greu incwm o dan unrhyw amgylchiadau.

Os credir bod unigolyn yn agored i niwed (er enghraifft, oherwydd salwch sy'n gysylltiedig ag oedran neu anabledd meddwl neu anabledd corfforol), dylid ystyried yn ofalus fesul achos a fyddai'n gymesur ac er budd y cyhoedd i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig.

► Crefftwyr

Yn unol ag adran 5.2 o God Ymarfer y Ddyletswydd Gofal o ran Gwastraff, pan fydd crefftwr yn gweithio ar eiddo, ef sy'n gyfrifol am y gwastraff a gynhyrchir ganddo. Gan nad y meddiannydd sy'n cynhyrchu'r gwastraff, nid yw'n ei drosglwyddo i'r crefftwr, felly nid yw'r ddyletswydd gofal yn gymwys.

► Gwastraff cartref a gaiff ei glirio gan landlordiaid

Pan fydd landlord yn trefnu i eiddo gael ei glirio ar ôl i denantiaeth ddod i ben, nid yw'r gwastraff dilynol yn wastraff cartref, oherwydd nad ef yw meddiannydd yr eiddo domestig. Golyga hyn fod y ddyletswydd gofal o dan Adran 34(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd yn gymwys yn lle hynny, ac ni ellir defnyddio'r hysbysiad cosb benodedig hwn.

► Dewis erlyn

Ni ddylid defnyddio hysbysiadau cosb benodedig pan fydd y dystiolaeth a gesglir yn awgrymu y byddai'n fwy priodol erlyn drwy'r llysoedd. Enghreifftiau posibl fyddai trosglwyddo gwastraff i unigolyn heb ei awdurdodi yn fwriadol, gan wybod y byddai'n cael ei dipio'n anghyfreithlon (trosedd bosibl o dan adran 33 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 o 'achosi'n fwriadol neu ganiatáu'n fwriadol' i wastraff gael ei ddodi, ei drin neu ei waredu etc.), neu pan fydd rhywun yn droseddwr cyson neu pa fo gan rywun hanes o beidio â thalu cosbau penodedig am droseddau amgylcheddol.

Sut i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig

O ystyried bod troseddau sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon yn gallu croesi ffiniau awdurdodau lleol, argymhellir eich bod yn ystyried manteision defnyddio dulliau gorfodi cyson, gan gydweithio ag awdurdodau cyfagos o bosibl.

Ceir cynnig hysbysiad cosb benodedig i unigolyn yn lle'r posibilrwydd o gael ei ddyfarnu'n euog am beidio â bodloni'r ddyletswydd sydd arno o ran gwastraff o'r cartref. Yn lle bwrw ymlaen i'w erlyn, cewch yn gyntaf gynnig y cyfle i dalu'r gosb benodedig.

Cyfle i ddangos bod y ddyletswydd gofal wedi'i chyflawni

Gall gwastraff cartref unigolyn gael ei waredu'n anghyfreithlon neu fod ym meddiant cludydd heb ei awdurdodi hyd yn oed os yw'r unigolyn hwnnw wedi cyflawni ei ddyletswydd gofal (e.e. gallai'r 'unigolyn awdurdodedig' y trosglwyddodd deiliad y tŷ y gwastraff iddo fod wedi trosglwyddo'r gwastraff hwnnw yn ddiweddarach i unigolyn heb ei awdurdodi). Cyn ichi gymryd camau gorfodi, naill ai'n uniongyrchol drwy erlyn neu drwy roi hysbysiad cosb benodedig yn gyntaf, dylid ymchwilio i'r achos. Dylech roi cyfle i unigolion ddangos eu bod wedi cyflawni'r ddyletswydd gofal sydd arnynt.

Gallai hynny gynnwys un neu fwy (gan ddibynnu ar yr hyn sy'n rhesymol o dan amgylchiadau unigol pob achos) o'r canlynol:

- ▶ Manylion y busnes ac unrhyw gerbyd a ddefnyddiwyd y gellir ei gysylltu â'r gweithredwr awdurdodedig
- ▶ Cofnod o'r gwiriadau a gafodd eu gwneud, gan gynnwys rhif cofrestru, rhif trwydded neu rif esemptiad y gweithredwr
- ▶ Derbynneg ar gyfer y trafodiad, sy'n cynnwys manylion busnes gweithredwr cofrestredig
- ▶ Copi neu ffotograff o drwydded gwastraff y cludydd neu'r safle.

Fodd bynnag, dylid pwysleisio nad oes dyletswydd ar unigolyn i gadw nodyn trosglwyddo gwastraff nac unrhyw gofnodion ysgrifenedig eraill wrth drosglwyddo ei wastraff cartref. Nid yw'r ffaith nad oed unrhyw gofnodion ysgrifenedig yn atal unigolyn rhag gwneud achos ei fod wedi cyflawni ei ddyletswydd gofal.

Pan fyddwch yn rhoi cyfle i'r unigolyn ddangos ei fod wedi cyflawni ei ddyletswydd gofal, dylech ei hysbysu o'r canlynol:

- ▶ y dystiolaeth a gasglwyd, e.e. os canfuwyd bod ei wastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon gan unigolyn heb ei awdurdodi
- ▶ y gallai wynebu gael ei erlyn, a pham
- ▶ a fydd hysbysiad cosb benodedig yn cael ei gynnig i ryddhau'r atebolrwydd am y drosedd.

Os bydd digon o dystiolaeth bod deiliad tŷ unigol wedi cydymffurfio â'i ddyletswydd gofal, ni allwch gyflwyno hysbysiad cosb benodedig, neu os bydd achos argyhoeddiadol yn cael ei gyflwyno ar ôl cyflwyno hysbysiad cosb benodedig, dylid tynnu'r hysbysiad yn ôl.

Cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig

Pan gyflwynir hysbysiad cosb benodedig, rhaid i'r hysbysiad enwi'r deiliad tŷ a nodi'r canlynol:

- ▶ pam ei fod wedi cael cosb benodedig, h.y. yr amgylchiadau honedig sy'n sail i'r drosedd
- ▶ bod yr hysbysiad cosb benodedig yn cael ei gynnig fel opsiwn sy'n rhyddhau atebolrwydd am drosedd heb iddo gael ei erlyn. Fodd bynnag, os bydd yn penderfynu peidio â thalu, gallai hynny arwain at erlyniad
- ▶ bod modd iddo ddarparu tystiolaeth i'r awdurdod lleol ar unrhyw adeg i gyfiawnhau'r achos dros beidio â chael ei erlyn, hyd yn oed os na thelir yr hysbysiad cosb benodedig
- ▶ faint y mae'n rhaid iddo ei dalu a sut gall ei dalu, gan gynnwys i bwy y dylid ei dalu a'r cyfeiriad ar gyfer gwneud hynny
- ▶ y dyddiad cau ar gyfer talu (14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad, heb gynnwys dyddiad yr hysbysiad)
- ▶ na fydd achos yn cael ei gychwyn yn erbyn y drosedd yn ystod y cyfnod talu
- ▶ beth sy'n digwydd os bydd yn talu'r gosb yn gynnar, er enghraifft, a oes gostyngiad
- ▶ unrhyw ffyrdd eraill o dalu'r gosb benodedig.

Pennir lefel y gosb yn y ddeddfwriaeth, fel a ganlyn:

- ▶ Cosb benodedig: £300
- ▶ Cosb ostyngol am dalu'n gynnar (os yw'n cael ei chynnig): £150

Pan fo mwy nag un unigolyn yn y cartref yn cynhyrchu gwastraff

Mae'r ddyletswydd gofal yn berthnasol i feddiannydd unigol yr eiddo sy'n trefnu i drosglwyddo'r gwastraff cartref a gynhyrchir yn yr eiddo hwnnw. Bydd angen ichi ystyried pwy yn y cartref sy'n gyfrifol am dorri'r ddyletswydd gofal cyn cyflwyno hysbysiad cosb benodedig yn ei erbyn. Rhaid bod tystiolaeth glir sy'n cysylltu'r unigolyn y cyflwynwyd yr hysbysiad cosb benodedig iddo â'r achos o dorri'r ddyletswydd gofal.

Dull gweithredu trawsffiniol

Ceir defnyddio'r hysbysiad cosb benodedig pan ymddengys fod unigolyn wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswydd gofal yng Nghymru yn unig. Mae hyn yn berthnasol i'r man lle y trosglwyddir y gwastraff, ac nid i'r man lle y gwaredir y gwastraff yn derfynol. Fel arfer, byddai hyn yn berthnasol pe bai unigolyn yn mynd â'i wastraff i safle heb ei awdurdodi yng Nghymru, neu pe byddai'n trosglwyddo ei wastraff i gludydd heb ei awdurdodi yng Nghymru, hyd yn oed pe byddai'r gwastraff hwnnw'n gadael Cymru yn y pen draw. Os cyflawnir y drosedd yn Lloegr, mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru am gydweithio â'r awdurdod lleol yn Lloegr lle y cyflawnir y drosedd er mwyn cydgysylltu unrhyw gamau gorfodi.

O ystyried bod tipio anghyfreithlon yn gallu croesi ffiniau awdurdodau lleol, argymhellir eich bod yn ystyried manteision defnyddio dulliau gorfodi cyson, a chydweithredu o bosibl, gydag awdurdodau cyfagos. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â'r thema drawsbynciol o weithio mewn partneriaeth yn strategaeth Llywodraeth Cymru "*Cymru Ddi-dipio*"³.

O ran achosion sy'n croesi ffiniau awdurdodau yng Nghymru, gall unrhyw awdurdod gorfodi yng Nghymru gyhoeddi hysbysiad cosb benodedig pan ymddengys iddo nad yw unigolyn wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd gofal. Fel arfer, bydd hyn o ganlyniad i ymchwilio i wastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon yn ei ardal a'i olrhain yn ôl i unigolyn, hyd yn oed os oedd yr unigolyn hwnnw wedi trosglwyddo'r gwastraff y tu allan i'r ardal honno'n wreiddiol. Argymhellir bod gwybodaeth am achosion sy'n croesi ffiniau yn cael ei rhannu rhwng awdurdodau cyfagos er mwyn helpu i gydgyssylltu'r camau gorfodi.

Unwaith y bydd hysbysiad cosb benodedig wedi'i gyflwyno, ni chaiff yr un awdurdod ddechrau achos nes y bydd y cyfnod talu o 14 diwrnod ar gyfer yr hysbysiad hwnnw wedi dod i ben. Hefyd, ni cheir rhoi hysbysiad cosb benodedig i rywun os yw'r un awdurdod neu awdurdod arall wedi rhoi hysbysiad iddo eisoes. Er mwyn osgoi dyblygu hysbysadau, os byddwch yn rhoi hysbysiad cosb benodedig i rywun am dorri'r ddyletswydd gofal yn ardal awdurdod arall, rhaid ichi roi copi o'r hysbysiad hwnnw i'r awdurdod arall pan fyddwch yn ei rhoi i'r unigolyn.

Methiant i dalu cosbau penodedig

Gan fod yr hysbysiad cosb benodedig yn cael ei gynnig fel opsiwn i ryddhau atebolrwydd am y drosedd, gall troseddwr honedig ddewis peidio â derbyn na thalu cosb benodedig. Gall hefyd ddarparu tystiolaeth ar unrhyw adeg i brofi na wnaeth gyflawni'r drosedd.

Pan na fydd unigolyn yn talu hysbysiad cosb benodedig, disgwylir ichi ddechrau achos i'w erlyn, oni bai ei fod wedi rhoi rheswm argyhoeddiadol pam na ddylech wneud hynny. Dylid casglu tystiolaeth fanwl ar ddechrau'r ymchwiliad, cyn cynnig hysbysiad cosb benodedig, er mwyn sicrhau y gellir erlyn os bydd angen. Bydd methiant i erlyn pan na fydd hysbysiad cosb benodedig yn cael ei dalu am y drosedd wreiddiol yn dwyn anfri ar y defnydd o gosbau penodedig ac ar y ddyletswydd gofal ei hun.

Rhaid mynd ati wrth ddatblygu strategaeth orfodi i ystyried yr angen i erlyn am y drosedd wreiddiol os na thelir hysbysiau cosb benodedig a rhaid trefnu bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael. Nid yw'n dderbyniol i awdurdod benderfynu ar ôl rhoi hysbysiad cosb benodedig nad oes ganddo'r adnoddau i erlyn os na thelir yr hysbysiad.

Proses adolygu anffurfiol

Nid oes hawl i apelio yn erbyn hysbysiad cosb benodedig, a hynny oherwydd ei fod yn cael ei gynnig fel ffordd ddewisol o ryddhau atebolrwydd am drosedd. Fodd bynnag, gellir amau atebolrwydd am y drosedd honedig neu herio priodoldeb y camau gorfodi. Os byddwch yn derbyn achos argyhoeddiadol dros beidio ag erlyn unigolyn ar ôl i'r hysbysiad cosb benodedig gael ei roi, dylech dynnu'r hysbysiad yn ôl a hysbysu'r derbynnydd o'r penderfyniad yn ddi-oed.

Gallai sail dros achos o'r fath gynnwys y pethau canlynol, ymhlith eraill:

- ▶ os nad yr unigolyn y rhoddwyd y gosb iddo oedd yr un a gyflawnodd y drosedd, er enghraifft, pan wnaeth rhywun arall drefnu i gael gwared â'r gwastraff
- ▶ os bydd yr unigolyn y rhoddwyd yr hysbysiad cosb benodedig iddo yn cyflwyno tystiolaeth a allai danseilio unrhyw erlyniad yn nes ymlaen
- ▶ os darperir tystiolaeth bod y sawl y rhoddwyd yr hysbysiad cosb benodedig iddo yn agored i niwed mewn rhyw fodd ac na fyddai camau gorfodi er budd y cyhoedd
- ▶ os darperir tystiolaeth na fyddai gorfodi, am unrhyw reswm arall, yn cael ei ystyried yn rhywbeth a fyddai er budd y cyhoedd.

Dylech ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir wrth benderfynu a ddylid dechrau achos troseddol yn erbyn yr unigolyn os na chaiff yr hysbysiad cosb benodedig ei dalu.

Codi Ymwybyddiaeth

Ni ddylech ystyried eich trefniadau gorfodi ar eu pen eu hunain. Yn ogystal â chymryd camau gorfodi, dylech geisio lleihau achosion o dorri'r ddyletswydd gofal o ran gwastraff cartref drwy ddulliau cyfathrebu clir sydd wedi'u dylunio'n dda. Gall codi ymwybyddiaeth am gamau gorfodi llwyddiannus helpu i atal pobl eraill rhag troseddu. Pan fernir nad yw'n briodol erlyn, mae'n bosibl y bydd cyfle o hyd i addysgu pobl am y ddyletswydd gofal o ran gwastraff cartref er mwyn atal achosion o'i thorri yn y dyfodol.

Dylech gyfleu eich rhesymau dros ddefnyddio'r hysbysiad cosb benodedig i'r gymuned, ac egluro mai diben gorfodi yw atal troseddau gwastraff a diogelu'r amgylchedd.

Bydd Llywodraeth Cymru a Taclo Tipio Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill i helpu i gefnogi gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

Adrodd

Dylech adrodd ar eich defnydd o hysbysiadau cosb benodedig yn rheolaidd ac yn gyson er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall y dull gorfodi a ddefnyddir. Mae WasteDataFlow yn cynnwys categori ar gyfer adrodd ar hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â'r ddyletswydd gofal.

Cyfeiriadau

¹ Waste Duty of Care: Code of Practice (England and Wales):
www.gov.uk/government/publications/waste-duty-of-care-code-of-practice/waste-duty-of-care-code-of-practice

² Welsh Government Guidance on Fixed Penalty Notices
gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/cleanneighbour/fixpenalty/?lang=en

³ The Welsh Government's "A Fly-tipping Free Wales" Strategy:
gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/cleanneighbour/flytipping/?lang=en